Cyngor Sir
CEREDIGION

# Y DREFN ACHWYNO

Staff a Gyflogir gan Gorff Llywodraethol
neu a Benodir i Weithio Mewn Ysgolion

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Weithiau, mae unigolion yn dwyn achwyniad yn erbyn eu hamodau gwaith neu'u cydweithwyr. Mae'r canllawiau canlynol yn ymgais i sefydlu gweithdrefnau effeithiol i ddelio â'r cyfryw sefyllfaoedd.

1.2 Ar bob achlysur, mae'n holl-bwysig i ddelio â'r sefyllfa mewn modd sensitif am fod yr unigolyn sy'n dwyn yr achwyniad yn debyg o eisiau canllawiau neu gynghorion ynghylch y mater.

1.3 Bydd angen i Gyrff Llywodraethol sefydlu dulliau gweithredu a fydd yn cymryd i ystyriaeth gofynion yr holl staff a gyflogir ganddynt.

1.4 Dylid nodi nad bwriad y gweithdrefnau achwyno yw delio â materion megis adolygu graddfeydd neu gyflogau, aflonyddwch rhywiol/hiliol neu fwlio. Ymdrinnir â'r materion hynny o dan ddulliau unigol eraill.

1.5 Bwriedir i'r drefn achwyno gynnwys pob gweithiwr – addysgol ac anaddysgol sy'n dod o dan gyfrifoldeb uniongyrchol y Corff Llywodraethol ynghyd â staff a gyflogir gan yr Awdurdod Addysg i weithio mewn ysgolion megis:

- Athrawon Bro gan gynnwys y rheiny a seiliwyd mewn Canolfannau Iaith
- Athrawon/Tiwtoriaid Cerdd Teithiol
- Athrawon Teithiol ar gyfer Anghenion Addysg Arbennig
- Staff a gyflogir yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion
- Staff Cefnogol: Cynorthwywyr Meithrin, Cynorthwywyr Gofal, Cynorthwywyr Gweinyddol ayyb

1.6 Ysgrifennir y drefn achwyno hon ar y dybiaeth y gallai'r Corff Llywodraethol:

(i) ddirprwyo elfennau cychwynnol o'r weithdrefn i'r Prifathro/Brifathrawes fel pennaeth y sefydliad; neu

(ii) ddirprwyo'r holl faterion achwyno i Is-Bwyllgor Achwyniadau Staff ac Is-Bwyllgor Apêl ar gyfer Achwyniadau Staff.

1.7 Fodd bynnag, caiff rhai eu heithrio o'r drefn achwyno yn unol â'r rhesymau a nodir yng nghymalau (a) i (d):

(a) Ymgais o fewn chwe mis o gwblhau'r drefn achwyno i ailddechrau'r achwyniad neu achwyniad tebyg iddo gyda'r eithriad canlynol: methiant y rheolwyr i weithredu'u penderfyniad i unioni'r achwyniad. Ni all y cyflogwr ychwaith weithredu unrhyw gynnig sy'n groes i ganlyniad unrhyw drefn achwyno o fewn y chwe mis dilynol.

(b) Achwyniad mewn cysylltiad â mater lle hysbyswyd y gweithiwr o ddyddiad y cyfweliad neu wrandawiad disgyblu sy'n ymwneud â gweithred honedig o gamymddygiad ganddo ef neu hi.

(c) Achwyniad mewn cysylltiad â honiad o berfformiad anfoddhaol y gweithiwr pan ei fod ef/hi wedi'i hysbysu o ddyddiad y cyfweliad neu wrandawiad ffurfiol ynglŷn â'r mater hwnnw.

(ch) Achwyniad ynglŷn â mater lle nad oes gan y cyflogwr unrhyw reolaeth amlwg drosto.

(d) Achwyniad honedig sy'n destun, neu sy'n briodol i, drefn weithredu ar gyfer anghydfodau cyfunol rhwng y cyflogwr ac undeb a gydnabyddir ganddo/i.

1.8 Amcan y drefn achwyno a nodir isod yw darparu modd i ddelio'n brydlon ag unrhyw achwyniad y gallai gweithiwr ei gael yn ystod cwrs ei g/chyflogaeth neu mewn cysylltiad â'i g/chyflogaeth.

1.9 Yn unol â pharagraff 1.11 isod, pennir terfynau amser ar gyfer gweithredu pob cam o'r drefn. Os na ymdrinnir â'r achwyniad gan reolwr priodol o fewn amser penodol, bydd gan y gweithiwr yr hawl i fwrw ymlaen i gam nesaf y drefn weithredu.

1.10 Os na all y gweithiwr gydymffurfio â therfyn amser, bydd y drefn weithredu yn dirwyn i ben ac ystyrir bod yr achwyniad wedi'i setlo neu ei dynnu'n ôl, ac eithrio pan sefydlir nad y gweithiwr sy'n gyfrifol am y methiant.

1.11 Ni fydd paragraff 1.9 neu 1.10 yn gymwys os bydd y rheolwyr a'r gweithiwr yn cytuno i estyn y terfynau amser mewn achos neilltuol.

## DULLIAU GWEITHREDU AR GYFER DIRPRWY BRIFATHRAWON, ATHRAWON A STAFF ANADDYSGOL

### 2. CAM 1

2.1 Dylai gweithiwr o fewn 20 niwrnod gwaith o gychwyn ei h/achwyniad, grybwyll y mater yn gyntaf i'w Lein Reolwr agosaf, e.e. Pennaeth Adran neu uwch aelod priodol arall o'r staff *(h.y. Pennaeth Blwyddyn neu Ddirprwy Bennaeth - a chan ddibynnu ar yr amgylchiadau, gallai fod yn briodol i drafod y mater gyda'r Prifathro/Brifathrawes)*. Dylid crybwyll yr achwyniad ar lafar yn y lle cyntaf ond rhaid ysgrifennu'r gŵyn ar y cyfle cyntaf bosibl.

2.2 Bydd y Pennaeth neu'r Lein Reolwr yn ceisio datrys y gŵyn ar sail anffurfiol. Bydd ef neu hi yn gwneud ymholiadau i'r achwyniad ac yn ei drafod gyda'r achwynydd ac yn hysbysu'r achwynydd o'i b/phenderfyniad o fewn 7 niwrnod gwaith ar ôl derbyn y gŵyn.

2.3 Os y Lein Reolwr yw testun yr achwyniad a bod y gweithiwr, o'r herwydd, ddim eisiau iddo ef/iddi hi glywed yr achwyniad, bydd gan y gweithiwr yr hawl i gael gwrandawiad gan Lein Reolwr y person hwnnw, h.y. y Dirprwy Brifathro/Brifathrawes neu'r Prifathro/Brifathrawes - pwy bynnag sy'n briodol. Er mwyn trefnu hyn, bydd rhaid i'r gweithiwr gyflwyno'r achwyniad ar ffurf ysgrifenedig i'r unigolyn dan sylw ynghyd â chais am gael y trefniant uchod (gan ddarparu copi i'r swyddog sy'n destun yr achwyniad). Bydd rhaid i'r unigolyn y mae'r gweithiwr wedi cyfeirio'r achwyniad ato, hefyd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig (gan ddarparu copi ohonynt i'r achwynydd) a dylid rhoi cyfle iddo/i i fynegi ei sylwadau ynghylch y mater heb ymrwymiad i wneud hynny yng ngŵydd y gweithiwr sy'n dwyn yr achwyniad.

2.4 Gall y Pennaeth, trwy gydgytundeb, ymgynghori â Chadeirydd y Corff Llywodraethol.

2.5 Fel arfer, byddir yn cyfleu'r penderfyniad i'r achwynydd ar lafar. Pe na bai'r achwynydd yn ystyried bod y penderfyniad yn dderbyniol, gall ef neu hi ofyn i'r Pennaeth Adran neu uwch aelod priodol o'r staff, i ddarparu penderfyniad ysgrifenedig.

2.6 Os yw'r achwynydd yn parhau'n anfodlon ar dderbyn y penderfyniad, gallai ef neu hi symud ymlaen i Gam 2 y weithdrefn o fewn 7 niwrnod gwaith.

*D.S. Os y rheolwr agosaf yw'r Prifathro/Brifathrawes a bod y mater ddim yn cael ei ddatrys gyda'r Prifathro/Brifathrawes, yna dylai'r gweithiwr fynd yn syth i Gam 3.*

## 3. CAM 2

3.1 Os na ddatryswyd yr achwyniad yng Ngham 1, gallai'r achwynydd gyfeirio'r achwyniad at y lefel reolaeth nesaf, e.e. y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth. Bydd yn rhaid i'r achwynydd ddarparu manylion llawn am y gŵyn a dylid eu cyfeirio at y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth ynghyd â chopi at y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol.

3.2 Os cafodd Cam 1 yr achwyniad ei ystyried gan y Pennaeth yn sgil gweithredu paragraff 2.3 uchod, yna gallai'r ymgeisydd symud syth ymlaen i Gam 3 y drefn weithredu os na ddatryswyd y mater yng Ngham 1.

3.3 Bydd y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth yn ystyried yr holl faterion a godwyd gan yr achwynydd ac yn cyhoeddi penderfyniad ysgrifenedig o fewn 7 niwrnod gwaith o dderbyn yr achwyniad ysgrifenedig. Caiff copïau o'r penderfyniad eu hanfon at yr holl garfanau yn ogystal â'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol.

3.4 Gallai'r Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth, ar ôl derbyn achwyniad ysgrifenedig, drefnu cyfarfod i'w fynychu gan yr holl garfanau sy'n ymwneud â'r achwyniad.

3.5 Bydd gan y Pennaeth neu'r Pennaeth Adran yr hawl i holi'r carfanau sy'n bresennol yn unrhyw un o'r cyfarfodydd a gynhelir i drafod yr achwyniad.

*D.S. Ar y cam hwn, gall y gweithiwr fynychu unrhyw gyfarfod i drafod yr achwyniad yng nghwmni "ffrind".*

## 4. CAM 3

4.1 Os na chaiff y gŵyn ei datrys er boddhad y gweithiwr yng Ngham 2, gellir cyflwyno'r achwyniad ar ffurf ysgrifenedig i Gadeirydd y Corff Llywodraethol o fewn 7 niwrnod gwaith o dderbyn y penderfyniad a wnaed yng Ngham 2.

4.2 Bydd Clerc y Corff Llywodraethol yn trefnu cyfarfod o'r Panel Apêl i ystyried yr achwyniad.

4.3 Bydd y Panel Apêl yn gwrando ar yr achwyniad o fewn 15 niwrnod gwaith o gyflwyno'r achwyniad ar ffurf ysgrifenedig i Gadeirydd y Corff Llywodraethol.

4.4 Caiff pob carfan eu hysbysu o benderfyniad y Panel Apêl ar ffurf ysgrifenedig o fewn 7 niwrnod gwaith i wrandawiad yr Apêl er, yn ddelfrydol, caiff hysbysiad llafar o'r penderfyniad ei roi ar ddiwedd y gwrandawiad.

4.5 Os bydd yr holl garfanau'n gytûn, gellir cyfeirio'r mater at wasanaeth cyflafareddu/cymrodeddu ACAS neu Gyd-Ysgrifenyddion y Cyngor Taleithiol.

## 5. DULLIAU GWEITHREDU AR GYFER PRIFATHRAWON

5.1 Os oes gan y Prifathro/Brifathrawes achwyniad yn erbyn Llywodraethwr(wyr) yna Cadeirydd y Llywodraethwyr yw'r unigolyn y mae'r Prifathro/Brifathrawes yn cyfeirio ato/i fel ei R/Rheolwr Agosaf yng Ngham 1 uchod.

5.2 Os na ddatrysir yr achwyniad ar y cam hwnnw, dylai'r Prifathro/Brifathrawes gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a chyfeirio'r mater at gyfarfod o'r Corff Llywodraethol llawn.

5.3 Os llywodraethwyr unigol yw testun yr achwyniad, ni ddylent eistedd gyda'r Corff Llywodraethol ond gallent fynychu gwrandawiad y Llywodraethwyr i gyflwyno'u hachos.

## 6. ACHWYNIAD YN ERBYN PRIFATHRO/PRIFATHRAWES

6.1 Os dygir achwyniad yn erbyn Prifathro/Prifathrawes, fe'i cyfeirir at Gadeirydd y Llywodraethwyr.

6.2 Dylid cyflwyno'r gŵyn yn ysgrifenedig.

6.3 **Cam 1**

6.3.1 Bydd Cadeirydd y Corff Llywodraethol yn ceisio datrys y gŵyn mewn modd anffurfiol. Bydd ef neu hi'n ymholi ynghylch yr achwyniad ac yn ei drafod gyda'r achwynydd ac yn hysbysu'r achwynydd o'i b/phenderfyniad o fewn 7 niwrnod gwaith i dderbyn y gŵyn.

6.3.2 Gall Cadeirydd y Corff Llywodraethol ofyn i aelod arall o'r Corff Llywodraethol neu Swyddog yr AALl ymchwilio i'r gŵyn.

6.3.3 Fel arfer, caiff y penderfyniad, o ganlyniad i unrhyw drafodaeth a/neu ymchwiliad, ei gyfleu i'r achwynydd ar lafar ac yn ysgrifenedig.

6.3.4 Os yw'r achwynydd yn parhau'n anfodlon ar dderbyn y penderfyniad, gallai ef neu hi symud ymlaen i Gam 2 y weithdrefn o fewn 7 niwrnod gwaith.

6.4 **Cam 2**

6.4.1 Os na chaiff y gŵyn ei datrys er boddhad y gweithiwr yng Ngham 1, dylid cadarnhau hynny'n ysgrifenedig i Gadeirydd y Corff Llywodraethol o fewn 7 niwrnod gwaith i dderbyn y penderfyniad a wnaed yng Ngham 1.

6.4.2 Bydd Cadeirydd y Corff Llywodraethol yn gofyn i Glerc y Corff Llywodraethol drefnu cyfarfod o'r Panel Achwyno i ystyried yr achwyniad o fewn 15 niwrnod i dderbyn llythyr yr achwynydd.

6.4.3 Dylid cyfleu penderfyniad y Panel Achwyno yn ysgrifenedig i'r achwynydd o fewn 7 niwrnod gwaith i'r gwrandawiad.

6.4.4 Petai'r achwynydd yn anfodlon â'r penderfyniad, yna dylai ef/hi apelio'n ysgrifenedig o fewn 7 niwrnod gwaith i dderbyn y penderfyniad.

6.4.5 Bydd y Panel Apêl yn gwrando'r achwyniad o fewn 15 niwrnod i dderbyn llythyr yr achwynydd.

6.4.6 Caiff pob carfan eu hysbysu o benderfyniad y Panel Apêl ar ffurf ysgrifenedig o fewn 7 niwrnod gwaith i wrandawiad yr Apêl er, yn ddelfrydol, caiff hysbysiad llafar o'r penderfyniad ei roi ar ddiwedd y gwrandawiad.

6.4.7 Os bydd yr holl garfanau'n gytûn, gellir cyfeirio'r mater at wasanaeth cyflafareddu/cymrodeddu ACAS neu Gyd-Ysgrifenyddion y Cyngor Taleithiol.